

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.**  
**A gynhaliwyd ar Nos Fercher Chwefror 17ddeg - 2016**  
**am 7.30 o'r gloch.**

**1. Presennol** - Cyngorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Dafydd Pritchard (DP), Alwena Roberts (AR), Rhian Hughes (RH), Lewis Davies (LD), a Alwyn Rowlands (AL)  
Aelodau cyhoedd - Simon Hunt a Carys Roberts yn bresennol

**2. Ymddiheuriadau** - Cyng. Bari Gwilliam, Mark Williams, Carwyn Jones

**3. Datgan Ddiddordeb**

MR ac AR ar drafodaeth Gwelfryn, Llanddona - aelodau o'r teulu.  
LD ar gais cynllunio  
RH ar drafodaeth Neuadd Llanddona

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed o Ionawr yn gywir gan Cyng. D Pritchard, eilio gan Cyng. A Roberts.  
Agorwyd y cyfarfod gyda phwynt 9.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

- 5.1 **Fynwent Llaniestyn** - LD wedi cysylltu ar Cyngor Sir, nid ydynt wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o adeilad yno. Hefyd wedi cysylltu ag Archeolegol Gwynedd er mwyn ymuno ac ein cyfarfod, dim wedi derbyn ymateb.
- 5.2 **Cerrig ger Llain Gron** - perchennog yn mynd i symud y cerrig, ond mae'r lori bin wedi dechrau defnyddio'r lôn eto. Clerc i gysylltu ag Adran Wastraff.
- 5.3 **Baw Cŵn** - MW wedi gosod yr arwyddion.
- 5.4 **Llwybr Tai Bach** - wedi derbyn cwyn ynglŷn ar waith sy'n mynd ymlaen ar safle Cherry Tree Cottage. Perchennog wedi defnyddio/hawlio tir sy'n ffurfio ymyl y ffordd, wrth blannu coed yna. Clerc i drafod y mater gydag adran Cynllunio.
- 5.5 **Eisteddfod Genedlaethol Môn** - niferoedd isel wedi troi fyny i'r cyfarfod ar y cyd ar 9/02/16.
- 5.6 **Cais Gwelfryn** - (12/15) Dilyn ymholiad Clerc wedi derbyn gwybodaeth fwy manwl gyda'r cais i ehangu'r hawddfaint i'r tir. Penderfynwyd caniatáu hawddfaint, ond angen sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn gosod unrhyw gyfyngiadau megis cyrbau ac ati. Clerc i gysylltu ag ein cyfreithiwr.
- 5.7 **Llwybr Arfordirol** - rydym ar ddeall nad yw'r ffermwyr lleol yn fodlon ar y cynllun yma. Mae hyn yn hollol groes i'r hyn a dywedodd y swyddog yn ein cyfarfod blaenorol.

**6. Adroddiad gan y Cynghorydd**

- LD - Hollt yn y lôn ger y mast sy'n arwain lawr i'r traeth - Cyngor Sir wedi glanhau'r ffosydd a llenwi'r craciau.
- LD - wedi atgoffa'r Cyngor Sir i ddod i lenwi'r tyllau yn y lonydd lleol
- LD - cafwyd trafodaeth fywiog gyda Dwr Cymru yn y Cyngor Sir gyda materion lleol. Nawr yn derbyn bod nhw ddim wedi gwneud digon yn yr ardal. Mae'n ymddangos bod gormod yn cael ei bwmpio o Landdona lawr i Langoed.
- AR - rhaid i ni gael cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru, Bwrdd Twristiaid a chyrrff eraill sydd â diddordeb i ddatrys y broblem hon, ni allwn gynnal y sefyllfa bresennol.
- LD - wedi trafod y mater o graeanu lôn Hafoty gyda'r Cyngor Sir.
- LD - Sipsiwn a Theithwyr, wedi cael cyfarfod cyhoeddus yn Llandegfan ar 22/01. Ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg o 11/02/16 - 11/03/16, i drio cael safle parhaol yn de o'r Ynys. Tri safle sy'n cael eu hystyried, Porthaethwy, Penhesgyn a Gaerwen, gyda safle dros dro yng Nghaergybi.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

- 22C169C - cais am estyniad cefn ac addasiadau mewnol yn Cae Bryntirion, Llanddona - cais gwreiddiol wedi ei gymeradwyo. Penderfynwyd gwneud yr un sylwadau fel o'r blaen.

**Er Gwybodaeth**

- 22C226A - Cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir yn Buarth Cyttir, Llanddona - wedi ei caniatáu.
- 22C146A - Dymchwel y gweithdy presennol ynghyd a chodi gweithdy newydd yn ei le, yn Glan Rhyd, Llanddona - wedi ei caniatáu.

## **8. Plot Glandŵr**

Derbyniwyd llythyr gan gyfreithiwr y perchennog bod disgwyl trefnu'r hawlfraint erbyn 26/02/16. Clerc wedi gosod hysbysiad am ein penderfyniad i fyny yn yr hysbysfwrdd.

## **9. Tir Comin**

9.1 Gwaith ar y Tir Comin - SH - yn egluro'r cynnydd ar y gwaith o amgylch y pentre' ac ar y Rhos, rhywfaint o dacluso rhagorol i'w wneud. Diwrnodau gwirfoddoli ychwanegol wedi ei drefnu ar 20/02 am 10 o'r gloch a hefyd 5/03. Nid fydd angen cyfraniad ar gyfer y gwaith gan y Cyngor Cymuned. Coeden gyferbyn a Cae Gors wedi ei dorri.

Gweithio yn awr gyda Menter Môn ar gais am grant gan y loteri fawr "Create your space" sy'n galluogi cymunedau i wella eu hamgylchedd naturiol. Mae angen datganiad o ddiddordeb erbyn 31/03/16.

MR - trigolyn lleol yn pryderu y bydd ceffylau nawr yn defnyddio'r llwybrau am fod yr ardal wedi cael ei glirio. Hefyd yn awgrymu fod angen torri mwy o'r helyg o gwmpas y pentre'.

9.2 Hen Ysgol (02/16) - derbyniwyd cais gan Swyddfa Cofrestru tir bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio newid ein teitl cofrestredig am y tir o gwmpas yr Ysgol. Edrych fel pe bai'r Prifysgol wedi gwerthu'r tir i'r Cyngor Sir, a Menter Môn. Menter Môn wedyn wedi trosglwyddo'r tir i'r Cyngor Cymuned. AR - i drafod y cais gyda swyddog o'r Cyngor Sir. Edrych yn debygol bod y Cyngor Sir yn ceisio tacluso materion cyn gwerthu'r Ysgol.

MR - wedi cysylltu ar swyddfa cofrestru tir ar Cyngor Sir. Mae'r cais yma yn anghyfeillgar ac yn siomedig iawn. Mae'n bwysig bod y tir yma yn berchen ar Cyngor Cymuned a dim yn cael ei werthu.

9.3 Tyn Llan (01/16) - Derbyniwyd cais gan gwmni Glas, gofyn mewn egwyddor fuasai'r Cyngor Cymuned yn caniatáu gosod peipen carffosiaeth drwy'r tir comin i safle Tyn Llan. Penderfynwyd ystyried y cais ar ôl derbyn cais cynllunio i'r safle.

## **10. Cyfrifon**

### **Gwariant**

- Rhodd i Pwyllgor y Neuadd - £2,000
- Aelodaeth Un Llais 2016/17 - £100.00

## **11. Gohebiaeth**

E-bost - M Williams - Cherry Tree Cottage

E-bost - Safle Sipsiwn a Theithwyr

Llythyr - aelodaeth Un Llais

Llythyr - Ymgynghoriad dreth Gyngor

Llythyr - Pensiwn

Llythyr - Banc N+W

Llythyr - R Owens, Plot Glyndŵr

Llythyr - Swayne Johnson, Plot Gwelfryn

Llythyr - C Hughes, plot Glyndŵr

## **12. UFA:**

12.1 Hen Ysgol - RH, SH a CR yn egluro'r sefyllfa bresennol a bod graddfa amser a bennwyd gan y Cyngor Sir yw 18 mis o Medi 15. Mae prisiwr annibynnol wedi gosod gwerth o £115k am yr Ysgol. Bydd cais i'r Loteri fawr o gwmpas £250k. Pwyllgor y Neuadd angen codi 25% tuag at ffioedd pensaer am y gwaith gyda'r ysgol. Dilyn trafodaeth penderfynwyd gwneud rhodd o £2,000 tuag at y gost hon.

12.2 Neuadd - RH - awgrymwy' wneud cais o'r gronfa Watkin Jones i gael gosod diffibriliwr a gwneud cais o gronfa Cynghrair Seiriol tuag at gostau trydanol yn y Neuadd.

12.3 Ymgynghoriad i gyflwyno premiwm treth y Cyngor ar gyfer ail gartref ac eiddo gwag hirdymor, gyda diwrnod cau 4/03/16.

## **13. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 10.10 o'r gloch.

Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 23/03/16 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad